

CLWB MYNYDDA CYMRU

Cofnod o gyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ym Mhlas y Brenin, nos Fercher, 7 Ionawr 2009.

1, Presennol : Morfudd Thomas (Cadeirydd), Clive James, Arwel Roberts, Gwyn Williams Llanrwst, John Arthur Jones, Maldwyn Roberts, Alwen Williams, Anita Daimond, Llew Gwent

Ymddiheuriadau : Gareth Roberts, Rhys Dafis, Iolo ap Gwynn.

2. Llyfyr “Hillwalking” yn y Gymraeg. Adroddwyd fod cynnydd go iawn, gyda’r nod lansio’r llyfr yn Eisteddfod Y Bala. PENDERFYNWYD cyfrannu £1,000 at y costau cynhyrchu.

3. Eisteddfod Y Bala. Adroddwyd fod Plas y Brenin (yn arwain fel elusen), y Partneriaeth, MLTB, CMP wedi cytuno ymuno a ni o dan ymbarél “Mynydda” mewn stonidin dwbl gyda thrydan yn Eisteddfod Y Bala. Gellir cynhyrchu taflen Eisteddfod Eryri !

4. Materion eraill CMP. Gellir gweld gweithgaredd yng Nghymru ar wefan y Clwb.

5. Materion y Partneriaeth. Y Cadeirydd newydd oedd Martin Doyle, Plas y Brenin.

6. Amser cyfarfod y Pwyllgor. Er mwyn hwylustod aelodau yn Ne Cymru, cytunwyd newid dyddiad pwyllgor mis Medi i 18 Medi, gyda thaith ar y dydd Sadwrn. Ystyrir cynnal cyfarfod yn y Canolbarth yn 2010.

7. Materion o’r Pwyllgor ym mis Medi. Dim byd

8. Materion o’r CCB mis Tachwedd. Cytunwyd meddwl am ddulliau hybu mynydda trwy gyfrwng y Gymraeg ym Mhatagonia, e.e. noddi ar gwrs, creu taflen hybu Cymry mynd draw, ayyb. CYTUNWYD prynu cyfrifiadur a thaflunydd er budd y Clwb

9. UFA. Roedd AD yn awyddus ennill cymwysterau arwain mynydda.

Cyfle adeg ymweliad i fynyddoedd Tatra cysylltu ag gefail parc P C Eryri

10. Cyfarfod nesaf. 13 Mai, 7:30, Plas y Brenin

11. Diffiniad o daith swyddogol. Yn ogystal â theithiau yn y Rhaglen swyddogol, CYTUNWYD fod gan yr Ysgrifennydd Gweithgareddau yr hawl ychwanegu teithiau pe bai’r arweinydd yn ddigon profiadol ar gyfer y daith benodol. Yn y gohebiaeth gydag aelodau bydd rhaid gwahaniaethu’n glir rhwng teithiau’r Clwb ac hysbyseb er fudd aelodau. Gofynnwyd i’r Ysgrifennydd holi ynghlyn a dilysrwydd yr insiwrans tramor.

12. Teithiau yn y De. Roedd angen taith ym mis Mehefin

13. Teithiau dringo. Derbyniwyd rhestr.

14 Teithiau ddydd Mercher. Gofynnir i Alun Roberts dod a rhestr gyda'i gilydd ar ôl y daith nesaf

15 Teithiau a dderbyniwyd gan eraill. Roedd cynnig gan aelod ym Mhenmachno. CYTUNWYD ar yr egwyddor dynodi goruchwilydd adeg bydd arweinwyr newydd ar deithiau. Hefyd CYTUNWYD i Llew Gwent trefnu cyfres o deithiau er mwyn dathlu Eisteddfod Cenedlaethol yn Y Bala

16. Gadael y Rhaglen nesaf. Trafodwyd a chytunwyd ar nifer o deithiau.

17. Teithiau yn y dyfodol. Efallai bydd taith i dde Llydaw Awst 2010